# SUT MAE GWAHANOL ARDALOEDD YN CAEL EU HADFYWIO?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn archwilio sut mae eu hysgol a'r tir y mae eu hysgol wedi'i hadeiladu arno wedi newid dros y blynyddoedd. Maen nhw'n cynnal arolwg o dir yr ysgol i chwilio am newidiadau ac yn cynnal ymchwil, gan storio eu gwybodaeth yn ddigidol. Defnyddir y wybodaeth a gesglir i ysgrifennu post cyfryngau cymdeithasol. Yna, mae dysgwyr yn ystyried yr ardal leol ac unrhyw newidiadau gwyrdd sydd wedi'u gwneud. Maent yn datblygu syniadau am dreftadaeth lofaol Cymru a'i hanes, yn enwedig mwyngloddio glo, er mwyn ystyried sut mae'r ardaloedd hyn wedi cael eu hadfer. Mae dysgwyr yn archwilio ystyr adfywio ac yn ystyried gwahanol fathau o adfywio, gan gymhwyso hyn i adfywio tiroedd yr ysgol. Yna, maen nhw'n cynnal arolwg arall o'r ardal leol er mwyn nodi mannau y gellid eu hadfywio. Mae'r dysgwyr yn creu cynllun gweithredu ar gyfer adfywio gofod lleol a chynhyrchu cyflwyniad o'u cynlluniau gweithredu i gynulleidfa wadd o drigolion lleol, perchnogion busnes, cynghorwyr lleol, grwpiau amgylcheddol lleol, ac ati, er mwyn gofyn am gymorth.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Defnyddiau ar gyfer adeiladu gwesty gwenyn - potel ddiodydd 2 litr wag, bambŵ neu goesynnau gwag eraill (digon i lenwi'r botel - tua 15cm), un metr o linyn, siswrn, siswrn tocio neu haclif fach.
Offer mesur, e.e. mesuryddion camau, tapiau mesur ar gyfer chwaraeon.
Offer profi pridd, os oes angen.
Dulliau o gymryd ffotograffau neu fideos, e.e. tabledi, ffonau clyfar.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# SUT MAE EIN HAMGYLCHEDD LLEOL WEDI NEWID?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i archwilio sut mae'r tir y mae eu hysgol wedi'i hadeiladu arno, wedi newid dros y blynyddoedd.

## Sgrîn 3

Mae'r sgrin gyntaf yn annog dysgwyr i ystyried sut le fyddai'r Ddaear heb fodau dynol a pha ran y gallant ei chwarae i wneud y byd yn le gwell. Dangoswch y fideo hwn i'r dysgwyr: What If All Humans Suddenly Disappeared From The Earth? (4 munud a 30 eiliad) (Saesneg yn unig) a gofynnwch iddynt feddwl am y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth wnaeth eich synnu am y fideo? Pam?
- Beth wnaethoch chi ei ddysgu o wylio'r fideo?
- Sut byddai natur yn cael ei effeithio pe byddai bodau dynol yn cael eu tynnu o'r Ddaear?
- Pa newidiadau welsoch chi? Beth achosodd y newidiadau hyn?
- Ydych chi'n meddwl bod y rhain yn newidiadau da? Pam?
- Gan feddwl am y man lle rydych chi'n byw, beth yw'r pethau cyntaf a fyddai'n digwydd pe na byddai bodau dynol? Pam?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod ein bodolaeth ar y Ddaear yn fater o gynnal cydbwysedd rhwng yr hyn yr ydym ei eisiau a'i angen a'r hyn y gall y Ddaear ei ddarparu ar ein cyfer, heb gael ei niweidio'n ormodol. Hefyd, bydd unrhyw newidiadau a wnawn yn cael effaith ar natur a'r amgylchedd.

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ddarganfod sut olwg oedd ar y tir mae'r ysgol yn sefyll arno cyn adeiladu'r ysgol ac ym mha ffyrdd y mae'r ysgol wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf. Ar ôl casglu gwybodaeth, byddant yn cael eu herio i ysgrifennu postiad ar gyfer cyfryngau cymdeithasol yr ysgol.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch grwpiau o ddysgwyr i wneud ymchwil i ddarganfod sut olwg oedd ar y tir y mae'r ysgol wedi'i hadeiladu arno, cyn i'r ysgol gael ei hadeiladu. Gallech roi cymorth i ddysgwyr drwy awgrymu pethau y gallent chwilio amdanynt, e.e.

- hen ffotograffau a mapiau
- delweddau neu fanylion cynllunio gan y cyngor sir lleol.

Gellid annog dysgwyr i siarad ag athrawon, teulu a ffrindiau ac aelodau hŷn y gymuned. Gallai pobl sy'n byw ger yr ysgol hefyd fod yn ffynhonnell wybodaeth debygol.

Gofynnwch i'r dysgwyr storio'r wybodaeth maen nhw'n ei chasglu, yn ddigidol.

## Sgriniau 7-8

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddwch yn mynd â nhw y tu allan ac ar dir yr ysgol i chwilio am gliwiau ynghylch a yw'r ysgol wedi newid dros amser. Gofynnwch iddynt feddwl am y cwestiynau canlynol cyn i chi fynd y tu allan, a'u defnyddio fel sail i'w harchwilio pan fyddwch y tu allan.

**Cwestiynau ffocws**

- Allwch chi ddod o hyd i unrhyw ddyddiadau ar adeilad yr ysgol? Ym mhle? Beth yw'r dyddiad?
- A yw rhai rhannau o'r adeilad yn edrych yn fwy newydd na rhannau eraill? Sut ydych chi'n gwybod?
- A ydych chi'n meddwl bod tir yr ysgol wedi newid erioed? Pam?
- A oes tystiolaeth o...
    - waliau'n cael eu dymchwel
    - drysau neu ffenestri'n cael eu tynnu a'r gofodau'n cael eu llenwi gyda briciau
    - ffensys wedi'u symud
    - coed yn cael eu tynnu neu eu plannu
    - ardaloedd yn cael eu gwneud yn wyrddach?
- Pam ydych chi'n meddwl y gwnaed y newidiadau hyn?

Gall dysgwyr ychwanegu'r wybodaeth hon at eu tystiolaeth ddigidol.

## Sgrîn 9

Ar ôl i'r dysgwyr gasglu gwybodaeth o dir yr ysgol, dylech eu hannog i ystyried sut arall y gallent gasglu tystiolaeth. Gan ddefnyddio'r cwestiynau canlynol, gwahoddwch nhw i feddwl a thrafod sut arall y gallen nhw gasglu gwybodaeth ynghylch sut mae'r ysgol wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble allech chi chwilio am wybodaeth? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- I bwy allech chi ofyn am y newidiadau hyn? Pam efallai y bydden nhw'n gwybod?
- Ble gallech chi ddod o hyd i hen ffotograffau o'r ysgol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- A allai fod yna awyrluniau ar gael? Sut ydych chi'n gwybod?

Gellir ychwanegu'r wybodaeth hon at eu tystiolaeth ddigidol hefyd.

## Sgrîn 10

Mae'r dysgwyr wedi adeiladu sylfaen o wybodaeth ddigidol ynghylch y newidiadau a wnaed i'r ysgol a'r tir y mae wedi'i hadeiladu arno. Cyn ysgrifennu eu postiad ar gyfer cyfryngau cymdeithasol yr ysgol, rydych am iddynt feddwl am y ffordd orau o wneud hyn ac ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth fyddai'r ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut allech chi wneud defnydd o TGCh yn eich postiad?
- Sut y byddwch yn sicrhau bod gennych ganiatâd i gynnwys delweddau?
- Sut y byddwch yn cyfeirio at ffynonellau yn eich postiad? Pam cyfeirio fel hyn?
- Sut byddwch chi'n golygu delweddau'n ddigidol, os oes angen? Pam golygu fel hyn?
- Sut allech chi greu a rhannu hyperddolenni o fewn y postiad?

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu eu postiadau a'u rhoi ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol yr ysgol.

## Sgrîn 11

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw archwilio pa newidiadau gwyrdd sydd wedi digwydd yn lleol. Gwahoddwch nhw i ofyn i deulu a chymdogion agos sut mae'r ardal o gwmpas lle maen nhw'n byw wedi newid yn ystod eu hoes. Gofynnwch i'r dysgwyr nodi mannau gwyrdd a darganfod beth oedd yno o'r blaen trwy annog y bobl maen nhw'n eu cyfweld i rannu eu barn ynghylch...

- Pam efallai y digwyddodd y newidiadau hyn.
- A wnaeth y newidiadau wella'r ardal.
- Sut yr effeithiodd y newidiadau ar y bobl leol.
- Sut yr ymatebodd y bobl leol i'r newidiadau.
- Pwy oedd yn gyfrifol am y newidiadau.

### Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un o'r newidiadau y dywedwyd wrthynt amdanynt a chymryd ffotograffau er mwyn dangos sut olwg sydd ar y rhan o'r ysgol sydd wedi newid, ar hyn o bryd. Fel arall, gellir dod o hyd i ddelweddau digidol ar y rhyngrwyd. Gallai ymchwil ar-lein hefyd eu galluogi i ddod o hyd i hen ffotograffau sy'n dangos sut olwg oedd ar y lle hwn cyn y newidiadau. Ceisiwch sicrhau bod pob grŵp neu bâr yn ymchwilio i newid gwyrdd gwahanol. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr greu eu cyflwyniad digidol.

### Sgriniau 13-14

Gwahoddwch y dysgwyr i ddangos i'r dosbarth, y newid y maen nhw wedi ei ddewis, ar ffurf cyflwyniad digidol. Efallai y byddan nhw'n annog cyfoedion i rannu eu barn ynghylch...

- Pam efallai y digwyddodd y newidiadau hyn.
- A wnaeth y newidiadau wella'r ardal, ai peidio.
- Sut gallai'r newidiadau fod wedi effeithio ar y bobl leol.

TASG 2

## SUT MAE CYMRU WEDI NEWID?

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn cefnogi eu dealltwriaeth o'r hanes a threftadaeth.

### Sgrîn 3

Gofynnwch i grwpiau o ddysgwyr edrych ar y ffotograff yng nghanol y sgwâr ffynhonnell ac ateb y cwestiynau yn y drefn hon:

- Ar beth ydych chi'n sylwi?
- Beth allwch chi ei gasglu?
- Beth arall hoffech chi ei wybod?
- Sut byddwch chi'n darganfod hyn?

### Sgriniau 4-5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod gan Gymru hanes cyfoethog o ddiwydiannau mwyngloddio, gan y bu i lo, llechi, copr, plwm, sinc, haearn, arian, tun, calchfaen, aur ac arsenig gael eu cloddio yn y gorffennol. Ar un adeg, Cymru oedd prif gynhyrchydd glo'r byd ac roedd glo yn rhan hanfodol bwysig o economi Cymru.

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio'r ddolen i gael mynediad at fap sy'n dangos lleoliadau hanesyddol pyllau glo yng Nghymru: Wales Coal Mines (Saesneg yn unig) ac yna i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n sylwi am y map?
- Beth mae'r map yn ei ddangos i chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth allwch chi ei gasglu wrth edrych ar y map? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
- Sut olwg fyddai ar fap o byllau glo Cymru heddiw? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr mai sgîl-gynnyrch mwyngloddio glo yw gwastraff carreg o'r enw slag, sy'n cael ei bentyrru fel tomen lo. Gwahoddwch nhw i edrych ar y ffotograff o domen lo enfawr yng nghanolbarth Cymru ac i ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ellid ei wneud gyda'r domen lo hon? Pam?
- Beth y gellid ei adeiladu arni? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pam y gallai adeiladu ar y domen lo achosi problem? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa newidiadau y gellid eu gwneud er budd yr amgylchedd? Sut byddai hyn yn fantais?
- Pa newidiadau fyddech chi eisiau eu gweld yn digwydd, petaech chi'n byw'n lleol? Pam?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr fod tomenni glo yn hynod beryglus a rhowch fanylion cryno iddynt am gwymp trychinebus tomen lo ar 21 Hydref 1966 yn Aberfan, De Cymru. Roedd y domen wedi'i chreu ar lethr mynydd ac yn gorchuddio ffynnon naturiol. Arweiniodd glaw trwm at ddŵr yn crynhoi o fewn y domen, gan achosi iddi lithro i lawr yr allt yn sydyn fel slyri, gan ladd 116 o blant a 28 o oedolion wrth i'r domen gladdu Ysgol Iau Pantglas a rhes o dai.

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi arolwg diogelwch o'r holl domenni glo sy'n weddill yng Nghymru. Gwahoddwch nhw i fynd i'r wefan: Diogelwch tomenni glo ac i ddarllen y wybodaeth am yr arolwg.

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu map rhyngweithiol o'r enw Dod o hyd i domenni glo segur, gan ddod o hyd i leoliad eu hysgol a chanfod ym mhle mae'r tomenni glo categori C a D agosaf at eu hysgol.

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr y gellir cloddio am lo neu ei gymryd yn syth o'r ddaear wrth gloddio glo brig. Gwahoddwch nhw i wylio'r ffilm drôn o'r awyr o waith glo brig Ffos-y-Frân, ger Merthyr Tudful ac i ystyried y cwestiynau canlynol. Ffos-Y-Fran Opencast Mine - Merthyr Tydfil (3 munud a 15 eiliad).

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n feddwl oedd yma cyn i'r ardal gael ei chloddio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa effeithiau mae'r mwyngloddio hwn wedi'i gael ar yr amgylchedd? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- Sut efallai mae'r mwyngloddio wedi effeithio ar blanhigion ac anifeiliaid? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut efallai mae bywydau pobl sy'n byw yn yr ardal hon, wedi newid? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 10

Eglurwch wrth y dysgwyr mai Ffos-y-Frân oedd y pwll glo brig olaf yng Nghymru a'i fod wedi cau yn 2023. Pan fydd y pyllau hyn ar gau mae'r safle fel arfer yn cael ei adfer. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig adfer safleoedd fel hyn? Pam?
- Beth fyddech chi'n ei wneud i adfer y safle hwn? Pam?
- Sut allech chi sicrhau y byddai planhigion ac anifeiliaid yn ffynnu? Pam fyddai hynny'n gweithio?
- Beth yn eich barn chi y gallai pobl leol fod eisiau ei gael ar y safle? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 11

Mae'r Cyngor Rhyngwladol ar Fetelau a Mwyngloddio yn hyrwyddo mwyngloddio cynaliadwy. Gwahoddwch y dysgwyr i wylio'r fideo a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy sy'n penderfynu beth i'w wneud â thir sydd wedi'i ddinistrio gan fwyngloddio?
- Pwy sy'n talu am adfer y tir?
- Pa fath o syniadau ar gyfer adfer y tir a geir yn y fideo? Pa syniadau allai fod yn rai da ar gyfer adfer safle Ffos-y-Frân? Pam?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

TASG 3

# BETH YW ADFYWIO?

Yn y dasg hon, mae dysgwyr yn archwilio i ystyr adfywio ac yn ystyried gwahanol fathau o adfywio.

## Sgriniau 3-4

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw edrych ar y ffotograff ac ystyried gorffennol, presennol a dyfodol yr hyn maen nhw'n gallu ei weld. Gwahoddwch nhw i ystyried y cwestiynau canlynol ac i ddefnyddio eu syniadau i gwblhau'r tabl.

**Cwestiynau ffocws**

GORFFENNOL

- Beth ydych chi'n meddwl oedd hwn ar un adeg? Pam?
- Pa gliwiau sydd yna am ei orffennol?
- Beth ydych chi'n meddwl sydd wedi digwydd? Pam?
- Pam ydych chi'n meddwl bod y pethau hyn wedi digwydd?

PRESENNOL

- Beth ydych chi'n ei weld?
- Pwy sy'n gyfrifol am y lle hwn, yn eich barn chi? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam ydych chi'n meddwl nad ydyn nhw wedi gwneud rhywbeth yn ei gylch?

DYFODOL

- Beth ellid ei wneud i wella'r lle hwn? Pam y byddai hynny'n ei wella?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod yna lawer o fannau o'n cwmpas nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n aml neu ddim yn cael eu defnyddio o gwbl mwyach, a bod y rhain yn aml yn anharddu'r ardal a bod llawer ohonyn nhw'n gallu bod yn beryglus. Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y ffotograff ac i feddwl am y cwestiynau canlynol a'u trafod.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei feddwl sydd wedi digwydd fan hyn?
- Sut y gallai hyn fod yn beryglus?
- Pa syniadau sydd gennych chi am wella'r man hwn?
- Pe byddech chi'n gwella'r man hwn, ym mha drefn y byddech chi'n gwneud hynny? Pam?
- Sut allech chi wirio bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer planhigion ac anifeiliaid lleol?

## Sgriniau 6-7

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw ystyried beth mae'r gair 'adfywio' yn ei olygu iddyn nhw. Yn eu grwpiau, gwahoddwch nhw i feddwl am gyfystyron i'r gair 'adfywiad' ac i gofnodi eu syniadau yn y blwch ar y sgrin. Dangoswch y saith o gyfystyron a ddarparwyd, i'r dysgwyr (atgyfodi, adnewyddu, dadeni, adfer, aileni, ailddatblygu, adnewyddu) a gofynnwch iddynt a oes unrhyw rai o'u cyfystyron hyn yn cael eu dangos. Defnyddiwch hwn fel cyfle i ennyn diddordeb y dysgwyr mewn trafodaeth am ystyr adfywio o fewn gwahanol gyd-destunau.

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw nawr yn ystyried adfywio naturiol. Gwahoddwch nhw i edrych ar y ddelwedd ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei weld yn y ddelwedd?
- Ydy'r lle hwn yn bodoli go iawn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Yn eich barn chi, beth a geisir ei gyfleu i ni yn y ddelwedd? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr fod angen mwy o goed ar y DU a bod angen i'r tir a orchuddir gan goetiroedd gynyddu o 13% i 19% erbyn 2050, er mwyn cyrraedd ein hymrwymiad cenedlaethol o sicrhau carbon sero net. Er gwaethaf plannu miliynau o goed brodorol bob blwyddyn, mae gadael i natur ddilyn ei chwrs hefyd yn ddull effeithiol ac effeithlon o gynyddu gorchudd tir. Adfywiad naturiol yw'r broses a ddefnyddir gan goed, llwyni a phlanhigion unflwydd i hunan-hadu a lledaenu. O dan yr amodau gorau, mae'r rhan fwyaf o blanhigion yn dda iawn am wneud hyn. Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol gyda phartner.

**Cwestiynau ffocws**

Pam ydych chi'n meddwl bod...

- y Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi dweud bod yn rhaid i orchudd coetir yn y DU gynyddu
- ein nod carbon net sero cenedlaethol yn bwysig
- coed yn darparu gorchudd tir
- gorchudd tir yn helpu planhigion ac anifeiliaid eraill
- coed yn dda am adfywio'n naturiol.

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo sy'n dangos adfywiad naturiol.

## Sgrîn 11

Eglurwch wrth y dysgwyr mai 'adfywiad naturiol â chymorth' yw pan y rhoddir cymorth i blanhigion ddarparu mwy o orchudd tir. Gwneir hyn fel arfer gan bobl leol, wrth iddynt gael gwared o'r rhwystrau a'r bygythiadau i dyfiant planhigion, gan ddefnyddio eu gwybodaeth am y tir a thraddodiadau eu hynafiaid.

Mae cymorth adfywio naturiol yng Nghymru yn cynnwys adfer fforestydd glaw tymherus hynafol ym Mryn Ifan, Gwynedd. Bydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn plannu 40 hectar o goedwig law. Bydd yn defnyddio plannu brodorol ac yn cynorthwyo aildyfiant naturiol. Tra bydd rhai ardaloedd yn cael eu neilltuo ar gyfer ffermio sy'n gyfeillgar i natur, bydd cadwraethwyr hefyd yn gwella gwlyptiroedd cyfagos i helpu glöyn byw britheg y gors. Bydd y rhywogaethau coed yn cynnwys derw, bedw a gwern, a bydd yr ardal yn cael ei rheoli gan bori cadwraethol.

## Sgrîn 12

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i fod yn cynorthwyo adfywiad naturiol ar dir yr ysgol. Pan fyddwch chi'n mynd â nhw allan i gael golwg ar y tir er mwyn penderfynu lle mae angen ei adfywio, bydd angen iddyn nhw ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa blanhigion ydych chi'n eu gweld yn tyfu? Sut ydych chi'n gwybod beth ydyn nhw?
- Pa fygythiadau sydd i'w twf? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut allech chi gynorthwyo planhigion i dyfu a ffynnu yn yr ardal? Pam fyddai'r syniadau hyn yn helpu planhigion?
- Ble ar dir yr ysgol y gallai mwy o blanhigion dyfu'n dda? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa effaith y gallai mwy o blanhigion ei chael ar boblogaethau pryfed? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa effaith y gallai mwy o blanhigion ei chael ar boblogaethau anifeiliaid eraill? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa rwystrau sydd yn atal tyfiant planhigion pellach? Beth allech chi ei wneud i gael gwared ar y rhwystrau hyn?

## Sgrîn 13

Ewch â'r dysgwyr allan i dir yr ysgol. Gofynnwch iddynt nodi meysydd lle gallent gynorthwyo aildyfiant naturiol drwy helpu planhigion i dyfu.

## Sgrîn 14

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried sut arall y gallan nhw helpu. Soniwch am westai gwenyn wrthynt, a sut y gellir eu gwneud i ddarparu safleoedd nythu i wenyn unigol. Mae'r gwenyn hyn yn bwysig ar gyfer peillio, sy'n cael effaith gadarnhaol ar dyfiant planhigion yn ei dro.

Cyn iddyn nhw fynd allan i'r awyr agored, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau canlynol a hefyd eu hystyried drachefn tra maen nhw tu allan.

**Cwestiynau ffocws**

- A ddylai'r gwesty gwenyn fod yn y cysgod? Pam?
- A ddylai'r gwesty gwenyn fod yn agos at adeilad yr ysgol neu ffin tir yr ysgol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble mae'r lle gorau ar gyfer y gwesty gwenyn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 15

Ewch â'r dysgwyr allan ar dir yr ysgol a gofynnwch iddynt benderfynu ble y gallent osod gwesty gwenyn, ac yna i drafod y cwestiynau uchod.

### Sgrîn 16

Gwahoddwch nhw i ddefnyddio'r ddolen a dilyn y cyfarwyddiadau i greu gwesty gwenyn.

[Gwneud gwesty gwenyn]

Gofynnwch i'r dysgwyr osod eu gwesty gwenyn yn yr ardal a ddewiswyd ganddynt ac arsylwi ar ddechrau'r gwanwyn a'r haf i wirio a yw gwenyn yn defnyddio'r gwesty.

TASG 4

## BETH SYDD ANGEN EI ADFYWIO YN EIN HARDAL LEOL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n cynnal arolwg o'r ardal leol er mwyn nodi mannau y gellid eu hadfywio. Yna, gall y dysgwyr greu cyflwyniad o'u cynlluniau gweithredu i gynulleidfa wadd sy'n cynnwys trigolion lleol, perchnogion busnes, cynghorwyr lleol, grwpiau amgylcheddol lleol, ac ati. Gallech ofyn i'r dysgwr ddefnyddio dulliau digidol ar gyfer storio'r data a'r wybodaeth a gasglwyd, fel yn Nhasg 1.

### Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw archwilio'r ardal leol, gan adnabod y mannau y gellid eu hadfywio a llunio rhestr ohonynt. Gellid cymryd ffotograffau o bob un o'r mannau hyn a nodi ble yn union maen nhw. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fath o fan fyddwch chi'n chwilio amdano?
- Sut byddwch chi'n gwybod pan fyddwch chi'n gweld man y gellid ei adfywio?

### Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar eu rhestr o fannau sy'n bosibiliadau ar gyfer prosiect adfywio ac ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa syniadau sydd gennych chi ar gyfer gwella'r mannau hyn?
- Pa un o'r rhain fyddai'n gwneud y prosiect adfywio gorau, yn eich barn chi? Pam?

Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un o'r mannau fel ffocws ar gyfer eu prosiect adfywio.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried y man y maen nhw wedi ei ddewis ar gyfer eu prosiect adfywio ac i ddangos lleoliad y man hwn ar y map a ddarperir. Gofynnwch iddynt nodi pobl/adeiladau/busnesau a allai gael eu heffeithio gan eu prosiect a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ellid ei wneud gyda'r man hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pam fyddech chi'n gwneud y newidiadau hyn? Pam y byddent yn welliant?
- Beth fyddai'r manteision i bobl/adeiladau/busnesau? Pam?
- A fyddai unrhyw anfanteision i bobl/adeiladau/busnesau? Pam?
- A fyddai'r newidiadau y bwriedwch eu gwneud yn gynaliadwy? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth fyddai'r rhwystrau i'r newidiadau hyn? Sut allech chi oresgyn y rhain?

## Sgriniau 6-7

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw ystyried yr agweddau cadarnhaol (Positif), yr agweddau negyddol (Minws) a'r agweddau diddorol (Diddorol) ynghylch adfywio'r gofod hwn. Gwahoddwch y dysgwyr i ysgrifennu eu syniadau yn yr adran gywir yn y diagram PMD.

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar eu syniadau negyddol (Minws) a thrafod y cwestiynau canlynol o fewn eu grŵp.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae goresgyn pob syniad negyddol (Minws)? Beth fyddai angen i ni ei wneud?

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i greu cynllun gweithredu ar gyfer eu prosiect adfywio. Fodd bynnag, cyn dechrau mae llawer o bethau i'w hystyried. Gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol o fewn eu grŵp.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallwn ni benderfynu pa newidiadau i'w gwneud?
- Sut gallwn ni ddarganfod beth yw barn pobl a busnesau lleol?
- Sut bydd y prosiect yn effeithio ar yr amgylchedd?
- Pa gyngor arbenigol allwn ni ddod o hyd iddo?
- Pa adnoddau fydd eu hangen arnom? Pam?
- Gan bwy mae angen caniatâd?
- Pa ymchwil y gallwn ei ddefnyddio?
- Faint o amser fydd y prosiect yn ei gymryd? Pam?
- Sut gallwn ni fonitro a gwerthuso effaith y newidiadau a wnawn?

## Sgrîn 9

Atgoffwch y dysgwyr eu bod wedi archwilio syniadau ynghylch sut y gallent ddatblygu a gwella man ar gyfer prosiect adfywio. Eglurwch iddynt y byddant yn ailymweld â safle'r prosiect i gasglu mwy o wybodaeth, er mwyn eu helpu i benderfynu sut i wneud gwelliannau. Gofynnwch iddyn nhw ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ffotograffau allech chi eu cymryd er mwyn eich helpu i gynllunio? Pam fyddai'r rhain yn helpu?
- Pa fesuriadau allech chi eu cymryd? Pam? Sut byddwch chi'n gwneud y rhain?
- Sut allech chi benderfynu pa blanhigion i'w tyfu? A allech chi, er enghraifft...
  - brofi'r pridd
  - adnabod cadwyni/gweoedd bwyd
  - gwneud ymchwil
  - darganfod beth sy'n tyfu'n dda gerllaw?
- Pa wybodaeth arall allai fod yn ddefnyddiol i'w chasglu? Pam?

## Sgrîn 10

Ewch â'r dysgwyr yn ôl i safle eu prosiect adfywio a'u gwahodd i gasglu mwy o wybodaeth er mwyn eu helpu i benderfynu sut y byddant yn gwneud gwelliannau.

## Sgrîn 11

Eglurwch wrth grwpiau o ddysgwyr eich bod am iddynt fyfyrio ar yr holl wybodaeth y maent wedi'i chasglu am safle eu prosiect adfywio. Dylai pob aelod o bob grŵp ddefnyddio nodiadau gludiog i gofnodi'r newidiadau a'r gwelliannau yr hoffent eu gwneud i'r man hwn.

Gwahoddwch nhw i greu bwrdd stori o'u syniadau ar gyfer datblygu, gan ddilyn y cyfarwyddiadau a ddarparwyd:

- casglwch y nodiadau gludiog a chael gwared â'r nodiadau dyblyg
- gosodwch y nodiadau ar wal wag
- symudwch y nodiadau o gwmpas er mwyn dod o hyd i'r drefn orau ar gyfer eich datblygiad
- cytunwch ar y drefn a gwneud cofnod o'ch bwrdd stori.

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ddylech chi ei wneud yn gyntaf yn y broses ddatblygu? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth yw'r drefn orau ar gyfer eich newidiadau? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Beth fydd y newid terfynol y byddwch yn ei wneud? Pam?
- Beth fyddwch chi'n ei wneud os nad ydych chi'n cytuno ar y drefn? Ydy hyn yn deg? Pam?

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar eu bwrdd stori er mwyn ystyried sut gallai eu syniadau helpu'r amgylchedd lleol. Byddai trafod y cwestiynau canlynol yn gymorth i wneud hyn.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut bydd eich prosiect adfywio yn effeithio ar yr ardal leol?
- Pa effaith gaiff y prosiect ar bobl? Pam?
- Pa effaith a gaiff eich prosiect ar fusnesau? Pam?
- Pa blanhigion ac anifeiliaid sydd yn yr ardal hon? Sut bydd y rhain yn cael eu heffeithio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 13

Er mwyn canfod barn pobl leol am eu syniadau, gofynnwch i'r dysgwyr greu holiadur i ddarganfod barn trigolion a busnesau lleol am eu hadfywiad arfaethedig. Er mwyn cynorthwyo eu meddwl, gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fformat fyddwch chi'n ei ddefnyddio ar gyfer eich holiadur? Pam?
- A fydd yn gopi caled neu'n ddigidol? Pam?
- Beth yw'r cwestiynau allweddol sydd angen i chi eu gofyn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa wybodaeth newydd allech chi ei chasglu? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Sut byddwch chi'n defnyddio'r ymatebion a gewch? Pam fyddech chi'n eu defnyddio fel hyn?

## Sgrîn 14

Awgrymwch wrth y dysgwyr eu bod yn defnyddio cyngor arbenigwyr i'w helpu i gynllunio, e.e. athrawon gwyddoniaeth, rhai sy'n garddio a rhai sy'n arbenigo yn yr amgylchedd lleol. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa gyngor allai'r bobl hyn ei roi i chi? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ble allech chi ddod o hyd i'r bobl hyn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut allech chi gysylltu â phobl fel hyn a'u gwahodd i'r ysgol i edrych ar eich cynigion?
- Sut allech chi wneud defnydd o'r cyngor a roddwyd i chi?

Yna, gallwch gysylltu â'r bobl berthnasol a gofyn am eu cyngor.

## Sgrîn 15

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd angen caniatâd yr awdurdodau perthnasol ar gyfer unrhyw ddatblygiad. Gofynnwch iddyn nhw ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Gan bwy y byddech angen caniatâd, yn eich barn chi? Pam?
- Pwy sy'n berchen ar y man neu safle, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut allech chi ddarganfod pwy sy'n berchen ar y man neu safle?
- Beth ydych chi'n meddwl y bydden nhw'n ei ddweud pe byddech chi'n cysylltu â nhw? Pam?
- Sut allech chi gysylltu â nhw? Pam cysylltu fel hyn?

Yna, gallai'r dysgwyr gysylltu â'r bobl berthnasol a chanfod beth sydd angen ei wneud er mwyn cael caniatâd ar gyfer eu prosiect adfywio.

## Sgrîn 16

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried sut y byddan nhw'n monitro a gwerthuso eu prosiect trwy ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pe byddech yn cynnal eich prosiect adfywio, sut y gallech chi:
    - o wirio ei gynnydd yn rheolaidd
    - o werthuso ei effaith ar y bobl/busnesau
    - o werthuso ei effaith ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth?

## Sgrîn 17

Nawr bod y dysgwyr wedi casglu eu gwybodaeth, gallant ddechrau llunio cynllun gweithredu. Gofynnwch iddynt ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu er mwyn creu cynllun gweithredu i amlinellu eu prosiect adfywio arfaethedig.

Atgoffwch nhw i ystyried...

- barn pobl a busnesau lleol
- sut bydd y datblygiad yn effeithio ar yr amgylchedd lleol
- y cyngor arbenigol a roddwyd iddynt
- canfyddiadau eu hymchwil
- yr adnoddau y bydd eu hangen arnynt
- eu syniadau monitro a gwerthuso.

## Sgrîn 18

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n datblygu cyflwyniad digidol ar gyfer cyflwyno eu prosiect adfywio i gynulleidfa, er mwyn eu hannog i gefnogi'r prosiect. Bydd y gynulleidfa yn gymysgedd o drigolion lleol, perchnogion busnes, cynghorwyr lleol, grwpiau amgylcheddol lleol, ac ati. Gofynnwch iddynt ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallai aelodau'r gynulleidfa gefnogi eich prosiect?
- Beth allen nhw ei wneud? Sut gallai hyn fod o gymorth?
- Pa adnoddau y gallen nhw eu darparu?

## Sgrîn 19

Eglurwch fod angen cynllunio gofalus er mwyn creu'r cyflwyniad digidol gorau posibl. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut y byddwch yn sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynwch yn berthnasol ac yn hawdd ei deall a'i dadansoddi?
- O flaen pwy allech chi ymarfer? Pam? Sut allech chi ddefnyddio eu cyngor?
- Sut byddwch chi'n sicrhau bod gennych chi sgript gyfareddol nad oes rhaid i chi fod yn rhy gaeth iddi?
- Pa baratoadau allwch chi eu gwneud?
- A fyddwch chi'n defnyddio'r un dull ar gyfer cyflwyno pob darn o wybodaeth? Pam?
- Sut allech chi ddarparu amrywiaeth yn eich cyflwyniad i'r gynulleidfa? Pam y gallai hyn fod o gymorth?
- Sut gallai cynnwys straeon personol wella'r cyflwyniad?
- Sut gallai cyfeirio at bobl rydych chi'n eu hadnabod yn y gynulleidfa fod yn gymorth yn ystod y cyflwyniad? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 20

Eglurwch wrth y dysgwyr y gall defnyddio'r offer cywir ar gyfer amrywio eu cyflwyniad, ei wneud yn fwy diddorol ac addysgiadol. Gofynnwch iddynt ystyried y cwestiynau canlynol ac yna i ddatblygu eu cyflwyniad.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddwch chi'n cadw'r cyflwyniad mor syml â phosib?
- Pa offer rhyngweithiol allech chi eu defnyddio yn eich cyflwyniad? Pam?
- Pa offer allai gadw diddordeb y gynulleidfa? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut gallai clipiau fideo eich helpu? Beth os ydych chi'n defnyddio gormod o'r rhain?
- Ble byddwch chi'n chwilio am ddelweddau o ansawdd da er mwyn eu cynnwys yn eich cyflwyniad? Pam?
- A fyddai'r delweddau hyn i'w cael yn rhad ac am ddim? Sut ydych chi'n gwybod? A fyddai hawlfraint arnynt? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- Sut byddwch chi'n defnyddio nodweddion fel eiconau a ffeithluniau yn eich cyflwyniad?

## Sgriniau 21-22

Gwahoddwch y dysgwyr i gyflwyno eu syniadau ar gyfer eu prosiect adfywio, er mwyn ceisio annog eraill i gefnogi'r prosiect. Os yn bosibl, gofynnwch i'r dysgwyr gyflawni eu prosiect adfywio.